St John Ambulance Cymru

Gofal Iechyd
Hyfforddiant a chyflenwadau
Plant a phobl ifanc
Gwirfoddoli
Codi arian

# Adroddiad effaith 2021



# Neges gan ein Prif Swyddog Gweithredol a Phrior Cymru

Yn yr un modd ag y gwelwyd ar draws y sector elusennau, cyflwynodd 2021 lawer o heriau a chyfleoedd newydd i St John Ambulance Cymru. Er i'r galw am ein gwasanaethau barhau i gynyddu, roedd cau ein cyfleusterau hyfforddi dros dro a diffyg digwyddiadau yn creu pwysau ariannol parhaus.

Gwnaethom ymateb i'r heriau hyn gyda'r dewrder a'r ymroddiad anhunanol sydd mor nodweddiadol o'n pobl St John wrth i ni barhau i weithio gyda'n partneriaid yng Ngwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r byrddau iechyd ledled Cymru, gan gynyddu capasiti a chadernid i ymateb i'r pwysau a roddir ar ein gwasanaethau gofal iechyd gan y pandemig parhaus. Oherwydd ein hymrwymiad i gefnogi ein cydweithwyr yn y GIG bu ein gwirfoddolwyr mewn Canolfannau Brechu ar hyd a lled y wlad.

Rydym yn falch iawn o'r hyn a gyflawnodd ein pobl yn 2021, mewn amgylchiadau hynod o anodd. Parhawyd i ymateb i'r her weithredol a logistaidd fwyaf y mae ein helusen wedi'i hwynebu yn ei hanes dros 100 mlynedd gyda phroffesiynoldeb, cadernid ac ymroddiad.

Rydym ni wedi cymryd camau breision i fyw ein cenhadaeth i achub bywydau ac i wella iechyd a lles cymunedau yng Nghymru, drwy barhau i fod yno, pryd a lle bynnag y mae ein hangen fwyaf.

Rydym yn ffyddiog y gallwn adeiladu ar ein llwyddiannau i barhau i dyfu a ffynnu am y 100 mlynedd nesaf a thu hwnt, gan ein dwyn yn agosach at ein gweledigaeth o 'Gymorth cyntaf i bawb, ar unrhyw adeg, yn unrhyw le'.

**Syr Paul Williams,**
Prior Cymru a Chadeirydd y Bwrdd

**Helen Smith,**
Prif Swyddog Gweithredol





# Ein gwirfoddolwyr

Mae ein gwirfoddolwyr wrth galon yr hyn a wnawn yn St John Ambulance Cymru, yn syml iawn ni fyddem y sefydliad yr ydym heb eu hymroddiad a'u cefnogaeth. Unwaith eto fe godon nhw i'r achlysur, a helpu i gadw pobl yn ddiogel mewn cymunedau ledled Cymru.

Darparwyd cymorth cyntaf mewn **174 o ddigwyddiadau** ar hyd a lled Cymru

Gwnaethom ymrwymo i dros **4,000 o oriau** ar gyfer **Pwynt Cymorth Abertawe,** gan helpu i gadw cymunedau yn Ail Ddinas Cymru yn ddiogel

Rhoddodd **o wirfoddolwyr** gyfanswm o **19,950 o oriau** o wasanaeth mewn digwyddiadau












**10,000 o oriau**

Yn 2021, ymrwymodd ein gwirfoddolwyr i dros 10,000 o oriau mewn canolfannau brechu ledled Cymru, gan helpu ein cydweithwyr yn y GIG yn y frwydr yn erbyn Covid-19

# Brechu 2021


Rhoddodd ein gwirfoddolwyr anhygoel eu hamser i ddarparu cymorth hanfodol yn y broses o roi brechiadau COVID-19, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod yno, lle yr oedd ein hangen fwyaf, gan gefnogi cymunedau ledled Cymru. Gwnaeth llwyddiant y rhaglen frechu gynorthwyo i godi'r cyfyngiadau a sicrhau'r arwyddion cyntaf o ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

- Gwnaethom ni gynnal 1947 o sifftiau dros y 12 mis
- Rhoddodd ein gwirfoddolwyr dros 10,000 o oriau o'u hamser i ddarparu gofal ar ôl brechiadau
- Roedd ein cymorth yn cynnwys 167 o Wirfoddolwyr Gofal Brechu yn gweithio'n ddiflino ochr yn ochr â saith Brechwr a 17 o staff cynorthwyol
- Roeddem yn bresennol mewn tri bwrdd iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cafodd Stephen Marshall, gwirfoddolwr yng Nghanolfan Brechu Torfol Holm View yn Y Barri ei gydnabod am ei ymateb cyflym pan ddechreuodd aelod o'r cyhoedd a oedd newydd ei frechu deimlo'n sâl. Dywedodd Sharon Chapman, Goruchwyliwr Nyrsio yng Nghanolfan Frechu Holm View;

> Roedd [Stephen] yn gyflym iawn i weld arwyddion cyntaf anaffylacsis yn un o'n dinasyddion a oedd wedi'i brechu. Daeth ataf yn syth i fynegi ei bryderon ac roedd ei ddadansoddiad yn hollol gywir....Rwy'n falch iawn o ddweud ei bod wedi gwella'n llwyr. Diolchodd y wraig i ni am achub ei bywyd, ac roedd Steve yn rhan fawr o'r ymdrech tîm hwnnw.








# Cefnogi Cymunedau Cymru

Parhaodd ein Timau Gweithrediadau Ambiwlans i ddarparu gwasanaethau hanfodol wrth galon cymunedau lleol.

Wrth gefnogi Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ystod blwyddyn heriol arall, gwnaethom sicrhau bod pobl yn cael y gofal yr oedd ei angen arnynt trwy ein hystod o raglenni.

- Lansiwyd pedwar ambiwlans i gefnogi ein cynllun treialu trawsgludo iechyd meddwl
- Gwnaeth ein Tîm Cludo Cleifion 25,598 o deithiau, gan deithio 625,574 o filltiroedd
- Gwnaeth y gwasanaeth cwympiadau weld 4,233 o gleifion, gan deithio 111,088 o filltiroedd a chaniatáu i 2,433 o ambiwlansys WAST fynd i'r galwadau mwyaf difrifol

Gwnaeth ein gwasanaeth ymateb i gwy mpiadau gadw bron i **60%** o'r bobl a welsom allan o'r ysbyty

**278 milltir** ein pellter hiraf a deithiwyd

> Diolch arbennig [i'r criw] sy'n gweithio'n ddiflino heddiw tan yr oriau hwyr iawn i hwyluso llif ein cleifion. Rydym yn gwerthfawrogi eu hamynedd, eu proffesiynoldeb a'u gwaith caled yn fawr iawn.
>
> - Un o ddefnyddwyr ein Cynllun Cludo Cleifion.

> Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud; eich ymroddiad a'ch proffesiynoldeb, a mynd yr ail filltir i'n helpu ni.
>
> - Un o ddefnyddwyr ein Cynllun Cludo Cleifion.

# Hyfforddiant

Fe wnaeth ein timau hyfforddi rymuso miloedd o bobl â sgiliau achub bywyd, er gwaethaf cyfyngiadau parhaus y pandemig.

Gallai ein rhaglenni hyfforddi cymunedol a masnachol unwaith eto ddysgu pobl yn bersonol, ac fe wnaethom ni gryfhau ein dewisiadau ar-lein ac e-ddysgu, gan roi mwy o ddewis i bobl nag erioed o ran sut y gallant hyfforddi gyda ni.

Fe wnaethom ni hyfforddi **8,534 o bobl** yn y gymuned

Gwnaeth hyfforddiant masnachol ddysgu **10,490 o bobl**

Fe roddom ni sgiliau cymorth cyntaf hanfodol i **3,514 o bobl** am ddim fel rhan o'n hymgyrch Achub Bywyd Mis Medi

#SaveaLife September

Yn gyfan gwbl, fe wnaethom ni hyfforddi **25,412 o bobl** drwy gydol **2021**





# Datblygu achubwyr bywyd ifanc

Rydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o bump oed yng nghymunedau Cymru. Drwy ein rhaglenni i blant a phobl ifanc rydym yn darparu'r gefnogaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i dyfu ym mhob agwedd ar eu bywydau.

- Er bod ein cyfleusterau dan gyfyngiadau symud ac ymbellhau cymdeithasol, fe wnaethom gynnal llawer o'n gwasanaethau drwy byrth ar-lein
- Cawsom **Farc Ansawdd Lefel Efydd Llywodraeth Cymru** ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Mae hyn yn dangos ein harfer da wrth weithio gyda phobl ifanc, a chynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, a datblygu gweithlu o ansawdd da



Rhai o'n Moch Daear o Glannau Dyfrdwy.



Ein Cadet y Flwyddyn, Joshua, a Dirprwy Gadet y Flwyddyn, Monisha.

Dysgodd **1,274** o foch Daear a Chadetiaid **sgiliau cymorth cyntaf** a sgiliau bywyd eraill yn un o'n rhaglenni i blant a phobl ifanc

Cafodd Carwyn, sy'n 10 oed, ei achub gan ei chwaer 7 oed Lowri ar ôl iddo ddechrau tagu yn ystod pryd o fwyd gyda'r nos. Roedd Lowri, wedi dysgu cymorth cyntaf fel rhan o'i Sett Moch Daear ym Medlinog ychydig fisoedd cyn y digwyddiad, a brysiodd i'w helpu. Roedd Lowri wedi dechrau taro ei brawd ar ei gefn, un o'r triniaethau cyntaf i helpu rhywun sy'n tagu, ar ôl galw am gymorth



# Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)

Parhawyd ein partneriaeth â'r **Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)** i gyflawni Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru yr RCN i bobl rhwng 16 a 25 oed yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn cyflwyno pobl ifanc i yrfaoedd posibl ym maes gofal iechyd a nyrsio drwy gymysgedd o leoliadau clinigol a dysgu mewn sesiynau.

Ar hyn o bryd mae 37 o gadetiaid ar draws Cymru wedi eu cofrestru yn y cynllun.

Mae Cynllun Cadetiaid Tywysog Cymru yn fan cychwyn delfrydol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y dyfodol. Mae'n cynnig cyfleoedd datblygiad personol a phroffesiynol i bobl ifanc ac yn eu cefnogi i symud i yrfa iechyd neu ofal cymdeithasol.

> Fe wnes i gwblhau Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru yn anterth y pandemig. 'Dw i wedi bod yn rhan o'r cynllun ers hynny, fel llysgennad a hwylusydd ar gyfer dwy garfan o fewn St John Ambulance Cymru. Ym mis Medi 2021 cefais gynnig i astudio Nyrsio Oedolion ym Mhrifysgol Abertawe, cefais wybod fy mod yn ymgeisydd delfrydol ar gyfer y cwrs ac roedd gen i fantais dros ymgeiswyr eraill oherwydd fy mod wedi cwblhau'r cynllun. Rwy'n ddiolchgar dros ben i'r cynllun am bopeth y mae wedi'i wneud i mi, ac i eraill, ac rwy'n argymell y cynllun yn fawr oherwydd popeth y mae'n ei wneud i helpu unigolion i gymryd eu camau cyntaf i ofal iechyd.
>
> - Oliver James, cyn Gadét Nyrsio Tywysog Cymru yr RCN

# Gwobrau, anrhydeddau a'r Urdd

Mae Prior Cymru'n cydnabod y cyfraniadau mwyaf anhunanol i'n hachos gydag amrywiaeth o anrhydeddau a gwobrau a roddir i gydnabod ymdrechion a chyflawniadau tuag at ein cenhadaeth. Nid oedd 2021 yn eithriad wrth i'n gwirfoddolwyr a'n staff gael eu cydnabod yn fewnol ac yn allanol.

- Nid oedd modd i ni gynnal arwisgiad llawn ond cynhaliwyd gwasanaethau llai yn Llanelwy ac yn y Fenni, yn ogystal â 'Dathliad Gwasanaeth' rhithwir ym mis Mehefin 2021
- Dyfarnwyd pum Tystysgrif Cymeradwyaeth i bedwar oedolyn ac un cadét
- Yn 2021 gwnaeth 13 dderbyn Medal 50 Mlynedd o Wasanaeth, sydd newydd ei chyflwyno



**Cafod 62**

o bobl eu derbyn neu eu dyrchafu o fewn Urdd Sant Ioan yn 2021.



gan gynnwys David Gardner fel Marchog Anrhydedd a Ruth Lewis BEM yn Fonesig Anrhydedd



# Codi Arian

Golygai'r pandemig parhaus a'r cyfyngiadau y bu'n rhaid i ni barhau i chwilio am ffyrdd newydd o ariannu ein gwaith achub bywyd. Cawsom ein rhyfeddu unwaith eto gan yr haelioni a'r gefnogaeth a ddangoswyd i ni, mewn blwyddyn y gwyddom y bu'n anodd i bawb.

- Rydym yn dymuno cydnabod ein rhoddwyr rheolaidd gwych sy'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi parhad ein gwasanaethau. Fe wnaethon nhw ein helpu i godi dros £500,000 yn 2021
- Fe gawsom ni bron i £30,000 gan etifeddiaethau. Mae St John Ambulance Cymru yn dibynnu ar roddion fel rhoddion mewn ewyllysiau i barhau â'n gwaith o ddarparu triniaeth cymorth cyntaf, hyfforddiant a chludiant mewn cymunedau ledled Cymru. A nawr rydym ni wedi ei gwneud hi'n haws nag erioed. Rydym wedi ein partneru gydag arbenigwyr ysgrifennu ewyllysiau ar-lein, Guardian Angel, i gynnig cyfle i'n cefnogwyr ysgrifennu eu hewyllys am ddim
- Er gwaethaf heriau'r pandemig parhaus parhaodd ein His-adrannau i weithio yn eu cymunedau i godi £30,000 trwy bopeth o gasgliadau bwced i ddigwyddiadau lleol. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod pan fyddwn unwaith eto yn gallu cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb a pharhau â'n cenhadaeth i achub bywydau a gwella iechyd a lles cymunedau Cymru

Fe wnaeth ein rhoddwyr rheolaidd gwych ein helpu i godi dros

**£500,000**



**24**

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau**

ledled Cymru ein cefnogi ni yn 2021 **gan roi bron** i

**£1 miliwn**

i'n helpu i barhau â'n gwaith, a diolch arbennig i **Gronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a ariennir gan Lywodraeth Cymru**

# Cyllid

Yn 2021 gwnaeth Covid-19 barhau i greu ansicrwydd ac amodau anrhagweladwy, gan roi'n ein cyllid o dan bwysau dwys.

Fe wnaethom unwaith eto wynebu llai o gyfleoedd i roi hyfforddiant a darparu cymorth cyntaf mewn digwyddiadau, gan leihau ein hincwm yn sylweddol.


Fe wnaeth cyfyngiadau Covid 19 hefyd wneud codi arian a oedd wedi'i gynllunio a chodi arian yn bersonol yn her. Roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o godi arian i gefnogi ein gwaith achub bywyd a gwrthbwyso ein hincwm llai.

Pan oedd yn bosibl, gwnaethom symud ein mentrau gwaith, hyfforddiant a chodi arian ar-lein, gan alluogi gweithgareddau i barhau gan leihau costau ar yr un pryd.

Er gwaethaf anawsterau, bu modd i ni barhau i allu ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau, a sicrhau ein bod yn gallu creu digon o incwm i barhau i gefnogi cymunedau Cymru drwy gydol y pandemig.

Diolch i'n gwirfoddolwyr a'n staff rydym wedi llwyddo i ddangos hyblygrwydd a chadernid sy'n ein galluogi ni i edrych ymlaen at y dyfodol, yn ffyddiog y gwelwn adferiad ariannol.


**Gwariant**



- Cost gweithgareddau elusennol 93.8%
- Cost codi arian 6%
- Arall: Gan gynnwys Llywodraethu 0.2%

**Cyfanswm: £7,589,944**

**Incwm**



- Gweithgareddau Elusennol 73.1%
- Rhoddion gan gynnwys grantiau 21%
- Arall, gan gynnwys masnachu a buddsoddi 5.5%
- Cymynroddion 0.4%

**Cyfanswm: £7,953,591**





# Diolch

Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i'r holl bobl a sefydliadau sy'n rhoi amser ac arian i wneud ein gwaith yn bosibl.

Roedd 2021 yn flwyddyn anodd arall i St John Ambulance Cymru, ond rydym yn parhau i gael ein rhyfeddu gan gydnerthedd ac ymroddiad ein gwirfoddolwyr, sydd mor barod i roi o'u hamser i sicrhau ein bod yn gallu darparu cymorth cyntaf ledled Cymru. Rydym ni eisiau diolch yn fawr iawn iddynt yn gyhoeddus, ni allem wneud hyn heb eu cefnogaeth barhaus.

Hoffem ddiolch hefyd i gyllidwyr, ymddiriedolaethau, partneriaid corfforaethol a noddwyr am y cyfraniad mawr a wnaethant i'n gwaith yn 2021.

Clwb Busnes Aberystwyth

Cyngor Tref Aberystwyth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Dinas a Sir Abertawe

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Sir Fynwy

Sefydliad Moondance

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Grantiau Cymunedol Tesco

Gwobr Dug Caeredin

The Mackay and Brewer Charitable Trust

Ymddiriedolaeth Oakdale

Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson

Tycroes Local Aid

UK Search and Rescue Volunteer Training Charitable Trust

Cyngor Bro Morgannwg

Llywodraeth Cymru





# Gwneud gwahaniaeth

Ni fyddem yma heddiw heb gefnogwyr a gwirfoddolwyr anhygoel. Gallwch chi hefyd wneud gwahaniaeth a'n helpu ni i gyflawni ein cenhadaeth i achub bywydau a gwella iechyd a lles cymunedau yng Nghymru, trwy ein cefnogi yn un o'r ffyrdd canlynol:

## Dysgu gyda ni:

Mae gennym gyrsiau sy'n cwmpasu popeth o gymorth cyntaf i godi a chario ac o iechyd meddwl i ddiogelwch bwyd. Gallech ymuno â sesiwn ymwybyddiaeth gymunedol am ddim neu gwrs hyfforddi masnachol i gael y sgiliau sydd eu hangen arnoch, wedi'u cyflwyno'n broffesiynol, gan sefydliad yr ydych chi'n ymddiried ynddo. Mae'r holl elw a wneir o'n cyrsiau masnachol yn ariannu ein gwaith elusennol; sy'n golygu, pan fyddwch chi'n hyfforddi gyda ni, fe fyddwch chi'n helpu i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ledled Cymru i achub bywyd.

## Gadael cymynrodd barhaol:

Mae gwneud eich ewyllys yn un o'r pethau pwysicaf y byddwch chi byth yn ei wneud. Mae'n sicrhau y bydd eich arian a'ch eiddo yn mynd i'r bobl a'r achosion sy'n bwysig i chi. Er mwyn achub bywydau yng Nghymru, mae ein gwirfoddolwyr yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi i sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael y cymorth achub bywyd y mae dirfawr ei angen ar ein cymunedau. Gyda'ch cymorth chi, mae modd hyfforddi mwy o bobl, mae'n bosib gwireddu uchelgeisiau, a gellir diogelu sicrwydd hirdymor gwasanaeth hanfodol yng Nghymru. Er mwyn gwneud pethau'n haws i chi, rydym ni wedi ein partneru gydag arbenigwyr ysgrifennu ewyllysiau ar-lein, gan gynnig cyfle i chi ysgrifennu eich ewyllys am ddim. I siarad â ni am eich cymynrodd, anfonwch e-bost at **legacies@sjacymru.org.uk**

## Herio eich hun:

P'un a ydych chi'n cerdded, rhedeg, neu'n awyrblymio, byddem wrth ein boddau pe baech yn defnyddio eich ymdrechion i helpu i gadw bywydau'n ddiogel drwy godi arian i ni. Roedd 2021 yn flwyddyn anodd i bawb, ond nawr bod y cyfyngiadau wedi'u llacio mae gennym leoedd elusennol ar gael ar gyfer ein cyfle awyrblymio tandem, yn ogystal â marathonau yng Nghaerdydd, Llanelli ac Abertawe. Cysylltwch â'r tîm codi arian **(fundraising@sjacymru.org.uk)** i gael rhagor o wybodaeth.



## Cymorth corfforaethol

Mae codi arian yn y gwaith, noddi neu ein dewis ni fel Elusen y Flwyddyn yn ffordd wych o ddangos i'ch gweithwyr a'ch cleientiaid bod iechyd a lles eich cymuned yn bwysig i chi. Gall ein cefnogi ni helpu i gyflawni eich nodau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, annog adeiladu tîm a gwella ymgysylltu â staff. Yn gyfnewid am hyn, gallwn eich helpu chi i wneud eich swyddfa yn fwy diogel i weithio ynddi, neu i ymweld â hi.

## Rhoi

Mae eich rhodd i St John Ambulance Cymru yn ein galluogi ni i hyfforddi a pharatoi gwirfoddolwyr gofal iechyd i achub bywydau yn ogystal ag addysgu eraill i wneud yr un peth. Gallwn weithio tuag at ein gweledigaeth gyda'n gilydd a fyddai'n caniatáu i wirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf ledled Cymru ddarparu cymorth cyntaf i bawb, ar unrhyw adeg, yn unrhyw le.

## Byddwch yn rhan o wneud gwahaniaeth achub bywyd:

Gallwch gyfrannu drwy sganio yma

dros y ffôn: **02920 449626**

neu drwy e-bost: **fundraising@sjacymru.org.uk**






www.sjacymru.org.uk |

St John Ambulance Cymru yw enw masnachu Priordy Cymru o Urdd Fwyaf Hybarch Ysbyty Sant Ioan yn Jerwsalem.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, na. 250523. Cwmni cofrestredig cyfyngedig trwy warant rhif. 5071073.